**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 4 Awst 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 19 Awst 2020 |

## PWNC

Eitem 6:STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION

## PENDERFYNIAD

a) Cymeradwyo'r strategaeth mewn egwyddor

b) Ein bod yn gofyn i Lywodraethwyr pob ysgol yn unigol i nodi a fyddent yn fodlon tanysgrifio'r gost adnewyddu dyfeisiadau o'u cyllidebau/ cronfeydd ysgolion ac os ddim i nodi pam;

c) Bod y gwasanaeth yn agor trafodaethau ar fyrder gyda rhanddeiliad perthnasol i fanylu mwy ar sut y bwriedir cynnal y gyfundrefn a sut y bwriedir talu amdano gyda golwg ar gynnwys hynny yn y strategaeth ;

d) Gan gymryd nad ydym am gael yr holl arian ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn Medi, bod y gwasanaeth yn ystyried ac yn gosod allan beth fyddai'r cynllun ar gyfer mewnosod y strategaeth yn raddol;

e) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 8 Medi yn nodi lle dan ni wedi cyrraedd gyda hyn oll, gyda golwg ar i ni unai gymeradwyo'r Strategaeth yn derfynol neu i gymeradwyo gosod yr archeb gyntaf.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen diweddaru strategaeth ddigidol addysg er mwyn sicrhau cysondeb profiadau dysgu digidol o fewn ysgolion. Ychwaenegwyd fod nifer o ddyfeisiadau wedi oesi ac yn anaddas ac fod gwendid o ran ymosdiadau 'seibr'. Awgrymwyd nad oes gan lawer o ysgolion y gallu i gyfrannu tuag ar gostau cynaliadwydd y strategaeth.

Tra'n derbyn y cyfeiriad cyffredinol, roedd yna gwestiynau angen atebion o hyd a gofynwyd i'r adran ddod yn ôl ag adroddiad pellach i'r Cabinet nesaf yn dilyn trafodaethau er mwyn ystyried a ellid cymeradwyo'r strategaeth yn derfynol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 4 Awst 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 19 Awst 2020 |

**PWNC**

Eitem 7:PROSIECT PROFI OLRHAIN DIOGELU

**PENDERFYNIAD**

- Ymrwymo i Gytundeb Rhwng Awdurdodau (CRA) gydag awdurdodau lleol eraill y Gogledd i reoli'r gwaith o recriwtio a rheoli staff ychwanegol i weithredu'r prosiect Profi Olrhain Diogelu;
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno dogfen derfynol a chwblhau y gytundeb.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen sicrhau cefnogaeth y Cyngor i'r strategaeth gydlynol genedlaethol a rhanbarthol i ymatal lledaeniad COVID-19. Fel rhan o'r strategaeth genedlaethol, mae awdurdodau'r Gogledd wedi sefydlu timau olrhain cysylltiadau lleol i gynorthwyo'r ymdrech ranbarthol a chenedlaethol gyda Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu fel awdurdod arweiniol ar gyfer cyflogi y staff.

Mae angen felly cymeradwyaeth i gwblhau yr CRA er mwyn ffurfioli y trefniadau yma a sicrhau llywodraethiant priodol. Bydd yr CRA arfaethedig o'i chwblhau yn darparu ar gyfer hyn ac yn caniatáu i'r gwaith symud ymlaen.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.